**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD IAU, 9 RHAGFYR 2021**

**BWRDD GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.R.Lockyer (Cadeirydd) a/ac P.D.Richards

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Jarrett, A.Thomas, K.Warren, J.Hodges, R Davies a/ac C.Plowman

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A Lockyer yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CROESO A GALW'R ENWAU.**

Croesawodd y Cynghorydd A Lockyer bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

3. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Ni wnaethpwyd unrhyw gyhoeddiadau.

4. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

5. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021 fel cofnod cywir.

6. **LLYTHYR TERFYNOL A CHYNLLUN GWEITHREDU AR Y CYD YN DILYN AROLYGIAD AR Y CYD O DREFNIADAU AMDDIFFYN PLANT AR DRAWS CASTELL-NEDD A PHORT TALBOT.**

**Penderfyniad:**

**I'w nodi**

Nododd yr Aelodau y bydd y partneriaid yn creu 'Cynllun Gweithredu ar y Cyd' sy'n mynd i'r afael â'r 'Meysydd Datblygu' hynny a nodwyd yn y llythyr terfynol. Dyma'r meysydd eang y nodwyd bod angen eu gwella ar draws y bartneriaeth:

- Asesiadau
- Canlyniadau
- Llais y Plentyn/Teulu
- Atgyfeiriadau/Adroddiadau/Cyfathrebu
- Cynllunio
- Cyfarfodydd
- Ymateb i niwed y tu allan i gartref y teulu/Diogelu
- Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd
- Gwasanaethau
- Gwella'r ymateb cychwynnol i'r adroddiad plant sydd ar goll

7. **ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 2 - GWASANAETHAU PLANT A PHOBL IFANC A'R GWASANAETHAU I OEDOLION (EBRILL 2021 - MEDI 2021)**

**Penderfyniad:**

**I'w nodi**

Bod y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Chwarter 2, Ebrill 2021 – Medi 2021 yn cael eu nodi.

8. **POLISI GOSODIADAU A RENNIR 2021 - CANLYNIAD YR YMARFER YMGYNGHORI**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Bydd Polisi Gosodiadau a Rennir Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Tai Tarian 2021, fel y'i hatodir yn Atodiad 1, yn cael ei gymeradwyo i'w roi ar waith fesul cam fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.
2. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, a chyda chytundeb Cyfarwyddwr Tai Tai Tarian, wneud unrhyw fân newidiadau pellach i'r Polisi sy'n angenrheidiol fel y gellir rhoi'r polisi ar waith yn effeithiol ac mewn modd amserol, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.
3. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, mewn ymgynghoriad ag Aelodau perthnasol y Cabinet, a chyda chytundeb Cyfarwyddwr Tai Tai Tarian, wneud unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'r Polisi oherwydd newid mewn deddfwriaeth, canllawiau neu broses weithredu, cyn ei adolygiad cyfnodol cyffredinol nesaf.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau bod gan y cyngor a Tai Tarian Bolisi Gosodiadau a Rennir a adolygwyd yn ddiweddar, sy'n cael ei roi ar waith mewn modd amserol ac eto fesul cam, ac sy'n parhau i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol tan y tro nesaf y caiff ei adolygu.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu gweithredu ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a'r broses rhoi ar waith fesul cam ddilynol fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r Polisi wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ôl y gofyn.

9. **DATBLYGU HWB BYW'N ANNIBYNNOL YN B'SPOKED**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

Cymeradwyir cyfnod ymgynghori cyhoeddus ffurfiol o 90 o ddiwrnodau, mewn perthynas â'r model darparu gwasanaethau yn B'spoked yn y dyfodol, a datblygu'r Hwb Byw'n Annibynnol, mewn egwyddor, yn amodol ar ddyfarnu cyllid.

**Rhesymau dros y penderfyniad:**

a) Gwella'r gwasanaeth i gefnogi pobl ag anableddau dysgu isel i gymedrol i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol ochr yn ochr â'r sgiliau y gall fod eu hangen arnynt i symud ymlaen i waith neu hyfforddiant.

b) Cefnogi pobl i gyrraedd eu potensial.

c) Lleihau angen pobl am ofal a chymorth statudol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Nid oedd gofyniad i ymgynghori'n allanol ar yr eitem hon. Fodd bynnag, gwnaed gwaith sylweddol gyda darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol perthnasol wrth ddatblygu'r cynnig.

10. **YMARFER CAFFAEL AR GYFER DARPARU GWASANAETH SEIBIANT BYR PRESWYL I BLANT A PHOBL IFANC AG ANABLEDDAU**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Bydd ymarfer caffael i gomisiynu gwasanaeth seibiant byr preswyl i Blant a Phobl Ifanc ag anabledd yn cael ei gynnal.
2. Yn dilyn y broses gaffael, rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ymrwymo i gontract

gyda'r cynigiwr yr ystyrir ei fod yn cynnig y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd (gan ystyried ansawdd a chost y ceisiadau), ar gyfer darparu gwasanaeth seibiant byr preswyl i Blant a Phobl Ifanc ag anabledd.

3. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i ymrwymo i gytundeb prydles gyda'r ymgeisydd buddugol.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i barhau i ddarparu Gwasanaeth seibiant byr preswyl i Blant a Phobl Ifanc ag anabledd ar ôl mis Gorffennaf 2022.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 11. COMISIYNU GWASANAETHAU GOFAL A CHEFNOGI MEWN CYNLLUN CRAIDD A CHLWSTWR

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, ac os rhoddir y caniatâd cynllunio perthnasol i Gymdeithas Tai Dewis Cyntaf a'u bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith o adeiladu'r llety:

1. Bydd ymarfer caffael i gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth i bobl sy'n byw yn y Cynllun Craidd a Chlwstwr yn cael ei gynnal.
2. Yn dilyn y broses gaffael, bydd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion yn derbyn yr awdurdod dirprwyedig i ymrwymo i gontract gyda'r cynigiwr yr ystyrir ei fod yn cynnig y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd (gan ystyried safon a chost y cynigion), ar gyfer darparu gofal a chymorth i bobl sy'n byw yn y Cynllun Craidd a Chlwstwr.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Bydd cynnal ymarfer caffael ar gyfer darparu gwasanaethau gofal a chymorth o fewn y Cynllun Craidd a Chlwstwr yn sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio'n gyfreithiol wrth brynu'r gwasanaethau hyn. Yn ogystal, bydd hyn yn sicrhau bod y cyngor yn y sefyllfa orau i barhau i ddiwallu

anghenion a bodloni gofynion y rheini sy'n gofyn am y gwasanaethau hyn drwy brynu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n gynaliadwy'n ariannol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 12. RHOI FFRAMWAITH SICRHAU ANSAWDD AR WAITH AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU BYW Â CHYMORTH ANABLEDDAU DYSGU AC IECHYD MEDDWL YNG NGHASTELL-NEDD PORT TALBOT.

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig a'r adroddiad ymgynghori:

Bydd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd, fel y'i nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael ei gymeradwyo i'w ddefnyddio gan Swyddogion.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod gan y cyngor Gynlluniau Byw â Chymorth cynaliadwy o ansawdd da sydd ar gael i ddiwallu anghenion oedolion ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol, ac mae'r adroddiad ymgynghori i'w weld yn Atodiad 2.

## 13. BLAENRAGLEN WAITH 2021/2022

Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/2022.

14. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif. 15 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yn y cyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser

15. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR 2020 - 2021**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**